
WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Dinas a Sir Abertawe

Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2013
Cyfeirnod y ddogfen: 241A2013



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o bron i £5.5 biliwn a drosglwyddir gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a phenodol. Yn ei thro, mae llywodraeth leol yn codi £2.1 biliwn pellach drwy'r dreth gyngor ac ardrethi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif, drwy hybu gwelliannau, fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymrwymedig i nodi a lledaenu arfer da ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Steve Barry a Samantha Spruce o dan gyfarwyddyd Cyfarwyddwr y Grŵp, Jane Holownia.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno a chynnig ar gyfer gwella** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 7

Mae'r Cyngor yn gwella perfformiad wrth gymryd camau i wella'r diwylliant hunanwerthuso ac yn mynd trwy gyfnod o newidiadau i'w drefniadau uwch-reoli a chraffu 8

Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd cyson wrth gyflawni gwelliannau mewn llawer o'r meysydd sy'n cael blaenoriaeth ganddo ond mae heriau sylweddol o hyd, yn fwyaf nodedig i godi lefelau ailgylchu a chynnal safon gofal yng ngwasanaethau plant ac oedolion 8

Mae dull y Cyngor o hunanwerthuso yn gwella ac mae'n cymryd camau cadarnhaol i roi darlun manwl gwir o berfformiad i ddinasyddion 20

Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer cynllunio a chefnogi gwelliant yn gadarn at ei gilydd ac mae'n rheoli cyfnod o newidiadau i drefniadau uwch-reoli a chraffu 26

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 32

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Ddinas a Sir Abertawe 33

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig 35

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Dinas a Sir Abertawe 38

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, ynghyd â gwaith a gynhelir ar ei ran gan Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r adroddiad hwn yn rhoi darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Rhennir yr adroddiad yn dair prif adran, sy'n cwmpasu'r ffordd y mae Cyngor Dinas a Sir Abertawe (y Cyngor) yn darparu ac yn gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2011-12, a'r ffordd y mae'n cynllunio gwelliant ar gyfer 2012-13.

2 At ei gilydd daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad canlynol: Mae'r Cyngor yn gwella perfformiad wrth gymryd camau i wella'r diwylliant hunanwerthuso ac yn mynd trwy gyfnod o newidiadau i'w drefniadau uwch-reoli a chraffu.

3 Yn rhan un o'n hadroddiad down i'r casgliad bod y Cyngor yn gwneud cynnydd cyson wrth gyflawni gwelliannau mewn llawer o'r meysydd sy'n cael blaenoriaeth ganddo ond mae heriau sylweddol o hyd, yn fwyaf nodedig i godi lefelau ailgylchu a chynnal safon gofal yng ngwasanaethau plant ac oedolion. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd wrth weddnewid y ffordd mae'n cyflenwi gwasanaethau cymdeithasol i oedolion, ac er y bu gwelliant mewn llawer o feysydd, mae rhai heriau allweddol o hyd wrth i faint a chymhlethdod y galw gynyddu.
- Mae'r Cyngor yn parhau i wella gwasanaethau i blant ac wedi gwneud cynnydd da mewn rhai meysydd allweddol, ond mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yn dal i fod yn gymharol uchel ac yn peri her sylweddol.
- Cyrhaeddodd y Cyngor ei holl dargedau a gwellodd yn yr holl fesurau mae'n eu defnyddio i ganfod cynnydd i wella canlyniadau dysgu.
- Er bod y Cyngor wedi gwella maint y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu, araf yw cyflymder y gwelliant. Bydd y Cyngor yn cael trafferth i gyflawni targedau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ac mae'n bosibl y bydd yn wynebu cosbau ariannol sylweddol o ganlyniad.
- Mae'r Cyngor wedi cael rhywfaint o lwyddiant wrth gael pobl i gymryd rhan yn ei brosiectau i wella cyflogadwyedd pobl ond cyfyngedig fu eu heffaith ac mae lefelau diweithdra'n dal i fod yn uwch na chyfartaleddau Cymru a'r Deyrnas Unedig.
- Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer gweinyddu budd-dal tai'n cefnogi gwelliant; dylai'r prosesau presennol sicrhau y caiff taliadau amserol a chywir eu gwneud i'r bobl iawn, a bod y gwasanaeth yn effeithiol ac yn ymatebol.
- Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth sicrhau bod ei holl dudalennau gwe ac arwyddion yn ddwyieithog ond bu oedi wrth roi'r gwedd derfynol ar y Fframwaith Sgiliau Ieithyddol.

4 Yn rhan dau, down i'r casgliad bod dull y y Cyngor o hunanwerthuso yn gwella ac mae'n cymryd camau cadarnhaol i roi darlun manwl gwir o berfformiad i ddinasyddion. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd canfuom y canlynol:

- Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur). Fodd bynnag, dylai sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n fwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
- Mae'r Cyngor yn gwella ehangder y wybodaeth a ddefnyddir i werthuso ei berfformiad, a fydd, ar ôl iddo ymsefydlu, yn galluogi'r Cyngor i ddarlunio canlyniadau i ddinasyddion a chymunedau'n well.
- Mae trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor wedi'i hen sefydlu ond mae angen rhagor o waith i alinio'n well gynlluniau busnes ac amcanion gwella.
- Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar waith i gasglu, cofnodi a monitro gwybodaeth am berfformiad.

5 Yn olaf, yn rhan tri o'r adroddiad, daethom i'r casgliad bod trefniadau'r Cyngor ar gyfer cynllunio a chefnogi gwelliant yn gadarn at ei gilydd ac mae'n rheoli cyfnod o newidiadau i drefniadau uwch-reoli a chraffu. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd canfuom y canlynol:

- Mae'r Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon.
- Mae'r Cyngor yn rheoli newidiadau pellach i'w strwythurau uwch-reoli a'i drefniadau craffu.
- Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i fynd i'r afael â phroblemau gyda'r ffordd yr oedd ei wasanaeth cynllunio'n cael ei lywodraethu a arweiniodd at argymhelliad statudol yn 2011.
- Mae'r Cyngor wedi datblygu strategaeth Adnoddau Dynol a gweithlu ond araf fu'r cynnydd wrth fynd i'r afael â'n hargymhellion yn dilyn ein hadolygiad o Adnoddau Dynol ddwy flynedd yn ôl gan fod angen o hyd i'r Cyngor ganolbwyntio ei adnoddau ar weithredu strwythur cyflogau a graddau newydd.
- Mae'r Cyngor yn parhau i reoli ei heriau ariannol yn effeithiol. Fodd bynnag, mae'r cynghorwyr yn wynebu rhai penderfyniadau anodd er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch cyllido a ragfynegir dros y pedair blynedd nesaf.

# Cynnig ar gyfer gwella

| Cynnig ar gyfer gwella | |
|---|---|
| **C1** | Gwella'r dulliau o adrodd ar berfformiad fel sy'n ofynnol yn y Mesur drwy wneud yr isod:<br>• cymharu perfformiad â blynyddoedd blaenorol, gyda chyrff eraill cymharol ac yn cynnwys mwy o ddefnydd o wybodaeth ansoddol megis data meincnodi;<br>• cynnwys manylion ynglŷn ag os yw gweithgareddau ar y cyd wedi cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd yn ogystal ag adroddiad o'r ffyrdd mae'r Cyngor wedi defnyddio ei bwerau cydweithio;<br>• egluro safbwyntiau'r Cyngor ar ei lwyddiannau wrth gyflawni pob un o'i amcanion gwella. |

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

6 O dan y Mesur, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth arolygiaethau yng Nghymru, sef Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni a sut mae'n gwneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf, gan ddefnyddio hunanasesiad y Cyngor ei hun.

7 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

8 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod;
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

9 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

## Mae'r Cyngor yn gwella perfformiad wrth gymryd camau i wella'r diwylliant hunanwerthuso ac yn mynd trwy gyfnod o newidiadau i'w drefniadau uwch-reoli a chraffu

### Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd cyson wrth gyflawni gwelliannau mewn llawer o'r meysydd sy'n cael blaenoriaeth ganddo ond mae heriau sylweddol o hyd, yn fwyaf nodedig i godi lefelau ailgylchu a chynnal safon gofal yng ngwasanaethau plant ac oedolion

#### Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd wrth weddnewid y ffordd mae'n cyflenwi gwasanaethau cymdeithasol i oedolion, ac er y bu gwelliant mewn llawer o feysydd, mae rhai heriau allweddol o hyd wrth i faint a chymhlethdod y galw gynyddu

10 Cyhoeddodd AGGCC ei *Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol ar gyfer 2011-2012*[1] ar wasanaethau cymdeithasol yn Abertawe ym mis Hydref 2012. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at lawer o agweddau da ar waith darparu gwasanaethau ac yn nodi meysydd cynnydd penodol. Mae hefyd yn nodi'r heriau yn y dyfodol a hefyd rhai meysydd ar gyfer gwella.

11 Nododd AGGCC ei bod hi'n amlwg bod gwasanaethau i oedolion Abertawe yn gwella a'u bod yn elwa ar sefydlu nifer o brosiectau arloesol. Cryfderau penodol y Cyngor yw ymgysylltu â darparwyr a defnyddwyr gwasanaeth, ei gysylltiadau â grwpiau cymunedol, mynediad at ei wasanaethau a threfniadau diogelu ar gyfer oedolion. Ceir tystiolaeth eglur o weithgarwch i gefnogi'r broses o foderneiddio'r gwasanaethau i oedolion. Mae hyn wedi derbyn ymrwymiad a chefnogaeth gan aelodau staff ar bob lefel.

12 Gwelodd AGGCC hefyd fod y Cyngor yn parhau i wneud cynnydd o ran gweddnewid. Rheolir a chydgysylltir y rhaglen newid yn dda. Ceir tystiolaeth eglur o ymrwymiad gan uwch reolwyr a rheolwyr lleol i'w gweithredu er mwyn gallu ad-drefnu'r gwasanaethau cymdeithasol a iechyd a gwasanaethau eraill cysylltiedig. Ceir nifer o feysydd allweddol i'w datblygu sy'n cynnwys y ddarpariaeth o wasanaethau gofal cartref, adolygiad o wasanaethau gofal seibiant, gwasanaethau camu i fyny a chamu i lawr a datblygu gwasanaethau integredig.

13 Sefydlwyd menter gydweithredol ranbarthol gwasanaethau cymdeithasol Bae'r Gorllewin i sicrhau y gall y tri chyngor dan sylw, Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wella gwasanaethau a darparu effeithlonrwydd trwy waith integredig a chydweithredol. Mae datblygu cynlluniau comisiynu rhanbarthol ymhellach yn flaenoriaeth. Un enghraifft yw'r strategaeth o fyw'n 'agosach at eu cartrefi' ar gyfer pobl ag anabledd dysgu ac anghenion cymhleth.

1 www.wales.gov.uk/cssiwsubsite/newcssiw/publications/lareviews/20112/?skip=1&lang=cy

14 Gall pobl fod yn siŵr bod y Cyngor yn parhau i gefnogi gwelliant i ansawdd y gofal a ddarperir i bobl yn ei leoliadau a reoleiddir ei hun a'r rhai y contractir â hwy. Un elfen allweddol o hyn yw'r rhaglen datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol. Trefn bartneriaeth a arweinir gan y Cyngor a darparwyr annibynnol o ofal cymdeithasol yw hon. Mae'n ymgysylltu â'r sector trwy arolygon blynyddol, fforymau darparwyr, diogelu, monitro contractau a rheoli.

15 Mae oedolion sy'n agored i niwed yn cael elwa ar broses ddiogelu gadarn sydd wedi'i hen sefydlu. Dywed arolygwyr AGGCC bod timau rheoli gofal yn ymateb yn gadarnhaol ac yn effeithiol i bryderon diogelu. Ystyrir bod y tîm diogelu yn gryf a bod ganddo hunaniaeth eglur. Mae'r Cyngor yn sicrhau ymateb prydlon i bryderon cynyddol ac mae'n awyddus i weithio ag asiantaethau partner. Mae adolygiad rhanbarthol o ddiogelu wedi cychwyn ac mae newid i fwrdd diogelu rhanbarthol ar sail menter gydweithredol Bae'r Gorllewin yn bosibilrwydd.

16 Nododd AGGCC y pedwar maes arfer da canlynol yn y gofal cymdeithasol i oedolion:

- Cyflawnodd y Cyngor gynllun clybiau cyfleoedd cymdeithasol arbrofol llwyddiannus mewn cymunedau lleol i fynd i'r afael â phroblemau'n ymwneud ag arwahanrwydd cymdeithasol pobl hŷn a'r rhai â phroblemau iechyd meddwl neu anableddau dysgu neu gorfforol.
- Mae'r Cyngor wedi datblygu ffyrdd arloesol o ofyn am sylwadau pobl ag anabledd dysgu.
- Mae comisiynwyr wedi bod yn effeithiol iawn o ran sbarduno gwelliannau yn y sector gofal cartref. Mae'r fframwaith comisiynu wedi'i hen ddatblygu ac yn gynhwysfawr.
- Mae rhanddeiliaid a phartneriaid allanol o'r farn bod Tŷ Waunarlwydd yn 'ganolfan rhagoriaeth' ym maes gofal dementia.

17 Nododd AGGCC y risgiau canlynol hefyd:

- gallu'r Cyngor i gynnal ac ymsefydlu newid;
- diffyg ymgysylltiad â'r bwrdd iechyd mewn rhai meysydd o foderneiddio;
- oedi wrth benodi cyfarwyddwr parhaol i'r gwasanaethau cymdeithasol; a
- mae angen i newidiadau i drefniadau craffu alluogi goruchwylio effeithiol o'r gwasanaethau cymdeithasol i gael ei gynnal.

18 Un o amcanion gwella'r Cyngor ar gyfer 2011-12 oedd sicrhau bod gan oedolion iau, pobl hŷn a gofalwyr fwy o ddewis a rheolaeth dros y ffordd maent yn cael eu cynorthwyo gan wasanaethau cymdeithasol i oedolion. Dewisodd y Cyngor hyn fel un o'i amcanion gwella gan ei fod yn wynebu galw cynyddol am wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion oherwydd bod y boblogaeth yn heneiddio a'r gydnabyddiaeth bod angen symud yn fwy tuag at gymorth yn y gymuned.

19 At ei gilydd, cymysg fu cynnydd y Cyngor o ran cyflawni gwelliannat yn yr ardal yma. Er enghraifft, gwellodd y perfformiad yn y meysydd canlynol:

- Mae'r Cyngor wedi gostwng cyfradd oedi wrth ryddhau cleifion am resymau'n ymwneud â gofal cymdeithasol o naw ym mhob 1,000 o'r boblogaeth 75 oed a hŷn yn 2010-11, i 7.18 ym mhob 1,000 o'r boblogaeth yn 2011-12. Fodd bynnag, mae ei berfformiad yn dal i fod yn sylweddol waeth na'i berfformiad yn 2009-10 pan gofnodwyd tri achos yn unig ym mhob 1,000 o'r boblogaeth o oedi wrth drosglwyddo gofal, ac mae ei berfformiad yn dal i fod yn is na chyfartaledd Cymru, sef 5.03 ym mhob 1,000 o'r boblogaeth.
- Parhaodd y Cyngor i wella prydlondeb cwblhau ac adolygu cynlluniau gofal yn ogystal â sicrhau bod y cynlluniau'n diwallu anghenion a gofynion yr unigolyn.
- Bu gwelliant bach yng nghanran y bobl rhwng 18 a 64 oed a gafodd gymorth yn y gymuned, yn bennaf oherwydd fod yna ystod mwy o wasanaethau ar gael i'r grŵp oedran hwn a llai o ddarpariaeth breswyl; mae gwasanaethau yn y gymuned hefyd yn fwy sefydledig.

20 Fodd bynnag, dirywiodd ei berfformiad mewn nifer o feysydd gan gynnwys:

- Targed y Cyngor oedd y byddai 80 y cant o bobl 65 oed a hŷn yn cael cymorth yn y gymuned; methodd y Cyngor gwrdd â hyn o gyfran fechan. Barnodd y Cyngor bod hyn oherwydd nifer gynyddol y bobl ag anghenion mwy cymhleth, megis dementia, sy'n dueddol o gael gofal mewn lleoliadau preswyl. Gyda chanran o 79.32 y cant, mae perfformiad y Cyngor yn dal i fod yn is na chyfartaledd Cymru.
- Sicrhau'r annibyniaeth fwyaf posibl yw un o elfennau sylfaenol strategaeth y Cyngor ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i oedolion. Gostyngodd cyfradd y bobl hŷn 65 a throsodd a gafodd gymorth i fyw gartref o 68.87 ym mhob 1,000 o'r boblogaeth yn 2010-11 i 67.59 yn 2011-12, ac mae dal i fod yn is na chyfartaledd Cymru, sef 78.6.
- Er bod y Cyngor bellach yn cymryd rhan mewn trefniadau rhanbarthol i ddarparu gwasanaeth cyfarpar cymunedol a larymau mwy cynaliadwy i helpu pobl i aros yn eu cartrefi, cymerodd y Cyngor yn hirach i osod cymhorthion a chyfarpar o'r adeg y cafodd pobl eu hasesu'n gyntaf nag a wnaeth y llynedd. Dirywiodd ei berfformiad o 5.5 diwrnod yn 2010-11 i 7 diwrnod yn 2011-12. Roedd hyn hefyd yn hirach na'i darged, sef 5 diwrnod.

21 Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw'r mesurau a gofnodir yn ei adolygiad blynyddol o berfformiad yn canolbwyntio llawer ar ganlyniadau. Mae yna le i gorffori gwybodaeth fwy ansoddol sydd wedi cael ei chynnwys yn adroddiad blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu ailgyflwyno mesurau sicrwydd ansawdd i bobl sy'n cael gofal cartref, a fydd yn darparu gwybodaeth fwy ansoddol sy'n canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau. Mae hefyd yn bwriadu defnyddio'r gwaith sy'n cael ei wneud yn genedlaethol gan AGGCC ar wasanaethau cymdeithasol i oedolion er mwyn datblygu mesurau sy'n canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau.

22 Mae'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol o ran rheoli'r galw am wasanaethau, ond hefyd ynghylch gwell dealltwriaeth o anghenion mwyfwy cymhleth pobl a sut y dylai hyn lunio gwasanaethau. Er enghraifft, erbyn 2030, mae'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus yn rhagweld y bydd 34.1 y cant yn fwy o bobl 65 oed a hŷn yn Abertawe nag yr oedd yn 2011, a 77.9 y cant yn fwy o bobl 85 oed a hŷn. Hefyd rhagfynegir gan y Sefydliad y bydd nifer y bobl hŷn sy'n dweud bod ganddynt salwch cyfyngus hirdymor yn codi 35.6 y cant[2]. Mae rhaglen y Cyngor i weddnewid gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yn allweddol bwysig i sicrhau bod ganddo'r gwasanaethau ar waith i ymateb i'r heriau hyn.

## Mae'r Cyngor yn parhau i wella gwasanaethau i blant ac wedi gwneud cynnydd da mewn rhai meysydd allweddol, ond mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yn dal i fod yn gymharol uchel ac yn peri her sylweddol

23 Mae'r *Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol 2011-2012* gan AGGCC yn nodi yn ei grynodeb: Mae'r gwasanaethau i blant a theuluoedd yn gwneud cynnydd cyson yn wyneb galw uchel a pharhaus. Mae'r gweithlu yn sefydlog a bu cadw aelodau staff yn flaenoriaeth. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi gostwng yn ystod y flwyddyn o 578 yn 2010-2011 i 554 yn 2011-2012, ond mae'n dal i fod yn uchel o'i gymharu â chynghorau tebyg. Mae cefnogi lleoliadau annibynnol ac y tu allan i'r sir wedi creu pwysau sylweddol ar y gyllideb. Mae'r Cyngor wedi ailstrwythuro ei wasanaethau rheng flaen ac wedi mynd i'r afael â'r anawsterau dilynol a ddaeth i'r amlwg yn ofalus. Mae'r gyfradd ail-atgyfeirio yn y gwasanaethau i blant yn dal i fod yn uchel ac mae nifer yr achosion plant mewn angen wedi cynyddu'n sylweddol.

2 www.daffodilcymru.org.uk. Mae Daffodil fersiwn 2.0 yn system ar y we a ddatblygwyd gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC) i Lywodraeth Cymru.

24 Penododd y Cyngor bennaeth newydd ar gyfer y gwasanaethau i blant a theuluoedd, ac mae swydd Cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol yn dal i gael ei gwneud ar sail dros dro. Serch y newidiadau hyn, cynhaliwyd yr ymdrech i wella ac nid yw'r ddarpariaeth o wasanaethau wedi dirywio. Yn y tymor hirach, bydd yr heriau sy'n codi yn y gwasanaethau i blant, oherwydd y nifer fawr o achosion a'r galw lefel uchel, yn parhau i fod yn sylweddol. Mae llythyr y cyfarwyddwr yn rhoi disgrifiad cynhwysfawr a chywir o berfformiad y Cyngor ac yn adlewyrchu'r dystiolaeth a ddarparwyd i AGGCC yn eglur. Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y Cyngor i ategu ei werthusiad wedi bod yn eglur.

25 Mae AGGCC yn nodi maint y gofynion sy'n wynebu'r gwasanaethau cymdeithasol, yn enwedig yn y gwasanaethau i blant, lle ceir nifer fawr o blant sy'n derbyn gofal a phlant y mae eu henwau ar y gofrestr amddiffyn plant, fel risg penodol.

26 Canfu AGGCC: 'Gwnaed cynnydd da yn y ddau wasanaeth o ran gwella'r meysydd y nodwyd fel bod fwyaf angen eu datblygu. Cafwyd peth llwyddiant o roi pwyslais ar leihau'r boblogaeth plant sy'n derbyn gofal ond bydd angen ymdrech barhaus. Mae sefydlogrwydd lleoliadau plant wedi gwella'n sylweddol, ac mae goruchwylio trefniadau sefydlogrwydd yn parhau i fod yn waith sy'n cael ei gyflawni. Mae angen rhoi sylw i rai meysydd o hyd, gan gynnwys codi proffil rhianta corfforaethol, lleihau nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir a gwella'r dylanwad y mae plant a theuluoedd yn ei gael ar lunio'r gwasanaethau i blant a'u hansawdd.'

27 Nododd AGGCC fod canllaw mewnrwyd rhyngweithiol y Cyngor ar bolisi ac arfer i aelodau staff yn y gwasanaethau plant a theuluoedd yn faes lle ceir arfer da.

28 Yn 2011-12, gosododd y Cyngor amcan gwella i sicrhau bod plant sy'n agored i niwed yn cael eu diogelu a'u cynorthwyo trwy gynnal a pharhau â gwelliannau i'r gwasanaethau i blant a theuluoedd. Er bod y perfformiad wedi gwella mewn pump o'r wyth dangosydd mae'r Cyngor yn eu defnyddio i fesur perfformiad yn y maes hwn o'i gymharu â'r llynedd, ac iddo gyrraedd ei darged mewn 71 y cant o'i ddangosyddion, at ei gilydd cymysg fu'r cynnydd wrth gyflawni'r amcan gwella hwn.

29 Un o'r meysydd oedd yn cael blaenoriaeth gan y Cyngor oedd atal ac ymyrryd yn fuan er mwyn lleihau'r angen i blant a theuluoedd gael ymyrraeth yn y dyfodol gan wasanaethau cymdeithasol. Cododd nifer y plant a atgyfeiriwyd i'r Cyngor ers y llynedd, yn rhannol oherwydd yr adnabuwyd cymorth yn gynharach, ond fe lwyddodd y Cyngor i leihau canran yr ail-atgyfeiriadau o 35 y cant yn 2010-11 i 31 y cant yn 2011-12, gan fethu ei darged, sef 30 y cant, o drwch blewyn. Fodd bynnag, mae ei berfformiad yn dal i fod ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, sef 29.7 y cant. Canfu adroddiad AGGCC, *Arolygiad o drefniadau Mynediad i'r Gwasanaethau Plant*[3], a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2012, nad oedd unrhyw drefniadau ar waith gyda phartneriaid i gefnogi a hybu cynnwys plant sy'n gyfran sylweddol o'r atgyfeiriadau ac ail-atgyfeiriadau. Roedd y Cyngor yn treialu trefniadau newydd i helpu i lenwi'r bwlch hwn.

3 www.wales.gov.uk/docs/cssiw/report/120330swancy.pdf

30 Maes arall â blaenoriaeth ar gyfer y Cyngor oedd bod plant sy'n cael eu hatgyfeirio i'r gwasanaethau plant a theuluoedd yn cael ymateb amserol o ansawdd da. Mae'n galonogol y bu gwelliant yn nifer y plant sy'n derbyn gofal gan y Cyngor ac yr adolygir eu cynlluniau gofal yn unol â'r amserlenni statudol, o 85.4 y cant yn 2010-11 i 87.5 y cant yn 2011-12, a chyrhaeddodd y Cyngor ei darged, sef 87 y cant, yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae perfformiad y Cyngor yn y chwartel isaf o'i gymharu â pherfformiad cynghorau eraill yng Nghymru.

31 Dirywiodd perfformiad y Cyngor wrth gwblhau asesiadau cychwynnol cyn pen saith diwrnod gwaith o 78.7 y cant yn 2010-11 i 77.8 y cant a methodd â chyrraedd y targed yr oedd y Cyngor wedi gosod iddo ef ei hun, sef 80 y cant, oherwydd y cynnydd yn nifer y plant a atgyfeiriwyd i'r gwasanaethau plant a theuluoedd, ond mae'n dal i fod yn well na chyfartaledd Cymru, sef 69.1 y cant. Ar y llaw arall, cafodd mwy asesiadau manwl eu cwblhau'n brydlon a gwellodd y perfformiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 57 y cant yn 2010-11 i 68.9 yn 2011-12, ond mae'n dal i fod yn waeth na chyfartaledd Cymru, sef 73.2 y cant.

32 Mae plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cefnogi i fyw mewn trefniadau gofal sefydlog a pharhaol; nodwyd bod hyn hefyd yn faes â blaenoriaeth. Mae'n gadarnhaol nodi y gostyngodd canran y plant sy'n derbyn gofal ac a gafodd dri neu fwy o leoliadau o 12 y cant yn 2010-11 i 7 y cant yn 2011-12, gan godi perfformiad y Cyngor i'r safle gorau ond pedwar yng Nghymru. Fodd bynnag, ni fu'r Cyngor mor llwyddiannus ag yr oedd wedi gobeithio bod wrth recriwtio gofalwyr prif ffrwd ychwanegol ac ni fu'r tîm amlasiantaethol a sefydlwyd i gynorthwyo plant ag anghenion cymhleth i aros yn eu cymunedau eu hunain mor llwyddiannus ag y gobeithiwyd. Er bod nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi gostwng yn y 12 mis diwethaf, mae'r nifer yn fawr iawn o hyd o'i chymharu â gweddill Cymru ac o gofio demograffeg Abertawe.

## Cyrhaeddodd y Cyngor ei holl dargedau a gwellodd yn yr holl fesurau mae'n eu defnyddio i ganfod cynnydd i wella canlyniadau dysgu

33 Un o brif amcanion y Cyngor yw i wella deilliannau dysgu a helpu disgyblion i gyflawni eu potensial. Mae'r Cyngor wedi canolbwyntio'i ymdrechion ar atal ac ymyrraeth fuan i leihau effaith tlodi a galluogi plant a phobl ifanc i gael dechrau cadarnhaol mewn bywyd. Ynghyd â'i bartneriaid, mae'r Cyngor wedi llwyddo i gynyddu nifer y plant hyd at dair mlwydd oed a'u teuluoedd sy'n cymryd rhan yn rhaglen *Dechrau'n Deg*[4] o 1,254 yn 2010-11 i'r nifer fwyaf sy'n bosibl ar hyn o bryd, sef 1,430, yn 2011-12, trwy ymestyn y ddarpariaeth feithrin mewn dwy o'i ysgolion cynradd: Blaenymaes a Seaview.

4 Mae *Dechrau'n Deg* yn rhaglen blynyddoedd cynnar a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer teuluoedd â phlant o dan bedair blwydd oed yn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

34 Mae’r Cyngor yn parhau i fonitro a gwerthuso effaith y rhaglen ac wedi dangos bod plant sy’n cymryd rhan yn y rhaglen wedi gwella mewn meysydd megis sgiliau llafaredd, sgiliau rhyngweithio a sgiliau cymdeithasol. Mae pob lleoliad *Dechrau’n Deg* hefyd yn dadansoddi cynnydd a dywedir bod rhieni hefyd wedi cael budd o’r rhaglen, gan wella eu sgiliau rhianta a magu hunanhyder. Mae penaethiaid yr ysgolion lle ceir lleoliadau *Dechrau’n Deg* wedi dweud bod rhieni hefyd yn cymryd mwy o ran yn yr ysgolion yn awr.

35 Mae’r Cyngor wedi cyhoeddi cynlluniau i gynyddu ei ddarpariaeth *Dechrau’n Deg* ymhellach er mwyn galluogi mwy na 1,000 yn fwy o blant i gael budd o’r rhaglen, yn dilyn y cais llwyddiannus am gyllid Cam 2 *Dechrau’n Deg* oddi wrth Lywodraeth Cymru.

36 Yn ogystal, canolbwyntiodd y Cyngor ei weithgarwch ar fynd i’r afael â’r cwymp yn lefelau presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae cymorth targededig gan y Gwasanaeth Lles Addysg, ynghyd â rhannu arfer da a mentrau penodol i wella presenoldeb, wedi arwain at berfformiad gwell yn 2011-12 mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd. Fodd bynnag, roedd y perfformiad ychydig yn is na chyfartaledd Cymru ar gyfer tri dangosydd allweddol: y sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer pobl Ifanc 15 oed a phresenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd.

### Arddangosyn 1 – Perfformiad addysgol

Roedd y perfformiad ychydig yn is na chyfartaledd Cymru ar gyfer tri dangosydd allweddol

| Sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer pobl Ifanc 15 oed | | Presenoldeb mewn ysgolion cynradd | | Presenoldeb mewn ysgolion uwchradd | |
|---|---|---|---|---|---|
| **2010-11** | **2011-12** | **2010-11** | **2011-12** | **2010-11** | **2011-12** |
| 372.3 | 423.5 | 92.3% | 92.9% | 90.6% | 91% |

*Ffynhonnell: Adolygiad Perfformiad Blynyddol Dinas a Sir Abertawe 2011-12*

37 Roedd gwella cyrhaeddiad addysgol rhwng 7 ac 11 a 14 ac 16 oed hefyd yn un o'r meysydd sy'n cael blaenoriaeth gan y Cyngor. Felly mae'n gadarnhaol nodi bod canran y disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 (rhwng 7 ac 11 oed) a gyflawnodd y safon ofynnol yn y pynciau craidd, sef Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, wedi codi o 77.5 y cant yn 2010-11 i 80.8 y cant yn 2011-12. Yn yr un modd, mae canran y disgyblion a gyflawnodd y safon ofynnol gan gynnwys TGAU gradd A* i C yn Gymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg wedi codi o 52.1 y cant yn 2010-11 i 53 y cant yn 2011-12. Mae'r perfformiad yn well na chyfartaledd Cymru yn y ddau gyfnod. Mae canfyddiadau o Brawf Darllen blynyddol Cymru Gyfan yn dangos gwell llythrennedd yn y tair blynedd diwethaf yn 11 oed, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau cyfnod allweddol 2, er y bu rhywfaint o oedi wrth gyflwyno strategaeth llythrennedd y Cyngor.

38 Mae canran y plant sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig hefyd wedi gostwng o 0.89 y cant yn 2010-11 i 0.43 y cant yn 2011-12. At hynny, trwy ei brosiect *Cadw mewn Cysylltiad* gyda Gyrfa Cymru Gorllewin, mae'r Cyngor yn llwyddo i ganfod a chynorthwyo'r plant hynny sydd mewn perygl o roi'r gorau i addysg. Mae hyn wedi'i helpu i ostwng cyfradd y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn 16 oed am yr ail flwyddyn yn olynol.

39 Mae'r Cyngor yn gwneud rhywfaint o gynnydd gyda'i gamau gweithredu i gynorthwyo plant ag anghenion o ran addysg arbennig ac anghenion dysgu ychwanegol i gyflawni eu potensial, er y bydd llawer yn dwyn ffrwyth yn 2012-13, megis agor y cyfleuster addysgu arbenigol yn Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt a'r fenter i roi gwell cymorth i ddisgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd.

## Er bod y Cyngor wedi gwella maint y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu, araf yw cyflymder y gwelliant. Bydd y Cyngor yn cael trafferth i gyflawni targedau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ac mae'n bosibl y bydd yn wynebu costau ariannol sylweddol o ganlyniad

40 Cymysg fu cynnydd y Cyngor wrth leihau gwastraff a chynyddu compostio ac ailgylchu trwy hybu a hwyluso'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau rheoli ac ailgylchu gwastraff.

41 Cymeradwyodd y *Cyngor ei Strategaeth Gwastraff Trefol 2011-2016* ar 26 Gorffennaf 2012. Un o'r elfennau allweddol yn hon oedd parhau i gyflwyno casgliadau sbwriel bob yn ail wythnos ar draws yr ardal. Mae hefyd wedi cymryd nifer o gamau i annog pobl i ailgylchu mwy trwy godi ymwybyddiaeth trwy guro ar ddrysau, cynnal sesiynau gydag ysgolion, ymgyrchoedd hysbysebu, datblygu arweiniadau ar ailgylchu a chynyddu nifer y fflatiau sydd â darpariaeth ar gyfer casglu gwastraff bwyd. Yn ei weithgarwch mae wedi targedu'r ardaloedd hynny lle gellid cael yr effaith fwyaf a lle'r oedd y cyfraddau ailgylchu'n isel.

Arddangosyn 2 – Perfformiad rheoli gwastraff

| Gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi | | Gwastraff a ailgylchwyd | | Boddhad y cyhoedd â'r casgliadau sbwriel wythnosol | |
|---|---|---|---|---|---|
| **2010-11** | **2011-12** | **2010-11** | **2011-12** | **2010-11** | **2011-12** |
| 59% | 54.4% | 40% | 45.15% | 61.3% | 82% |

*Ffynhonnell: Adolygiad Perfformiad Blynyddol Dinas a Sir Abertawe 2011-12*

42 Mae gweithgarwch targededig wedi helpu'r Cyngor i lwyddo i leihau maint y gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi ac mae boddhad y cyhoedd gyda'r casgliadau sbwriel newydd bob yn ail wythnos hefyd wedi gwella. Fodd bynnag, mae perfformiad y Cyngor yn y mesurau ailgylchu a thirlenwi yn waeth na chyfartaledd Cymru a bydd yn gryn dipyn o her i'r Cyngor gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer ailgylchu yn y dyfodol (52 y cant yn 2013, 58 y cant yn 2016 a 64 y cant yn 2020), a all arwain at gosbau ariannol sylweddol i'r Cyngor (£250,000 am bob un y cant o dan y targed). Mae'r cosbau'n dod i rym o ddiwedd mis Mawrth 2013.

43 Nododd adroddiad i Gabinet y Cyngor ym mis Ionawr 2013 ar drefniadau arfaethedig i wella ailgylchu fod y targed ailgylchu ar gyfer 2013 yn un o'r elfennau allweddol yng Nghytundeb Canlyniadau'r Awdurdod gyda Llywodraeth Cymru, a allai, o'i gyflawni, gyfrannu at sicrhau gwerth mwy na £2 miliwn o gyllid grant. Pwysleisiodd yr adroddiad hefyd fod methiant y Cyngor i gyrraedd targed cynharach o dan drefniadau'r cytundeb gwelliant blaenorol wedi cyfrannu at golli 25 y cant o'r grant hwn.

44 Lleihaodd y Cyngor nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon o 2,934 yn 2010-11 i 2,076 yn 2011-12 ond cliriodd lai o'r achosion hyn cyn pen pum diwrnod y targed yn 2011-12 nag a wnaeth yn 2010-11. Ni chyrhaeddodd ei darged, sef 90 y cant, ac mae ei berfformiad yn dal i fod yn y chwartel isaf o'i gymharu â pherfformiad awdurdodau eraill yng Nghymru. Nod y Cyngor yw gwella'r perfformiad hwn trwy gydweithredu gwell rhwng y timau Gwasanaethau Stryd a Chynnal a Chadw Priffyrdd.

## Mae'r Cyngor wedi cael rhywfaint o lwyddiant wrth gael pobl i gymryd rhan yn ei brosiectau i wella cyflogadwyedd pobl ond cyfyngedig fu eu heffaith ac mae lefelau diweithdra'n dal i fod yn uwch na chyfartaleddau Cymru a'r Deyrnas Unedig

45 Mewn perthynas ag amcan y Cyngor i wella cyflogadwyedd pobl drwy gynyddu effaith rhaglen adfywio'r Cyngor i gynnig a hwyluso hyfforddiant a lleoliadau profiad gwaith, yn ei weithgarwch mae'r Cyngor wedi canolbwyntio ar ddau brosiect allweddol: *Gweithffyrdd*[5] a chynllun *Y Tu Hwnt i Frics a Morter*[6], sydd ill dau â'r nod o gynorthwyo pobl i gael gwaith.

46 Cyrhaeddodd y Cyngor bedwar o'r pum targed yr oedd wedi'u gosod iddo ef ei hun ar gyfer yr amcan gwella hwn. Roedd hyn yn cynnwys cynyddu nifer y llofnodwyr i fenter *Y Tu Hwnt i Frics a Morter* o 61 yn 2010-11 i 85 yn 2011-12, oedd yn rhagori ar ei darged, sef 73. Hefyd cynyddodd nifer y contractau sector cyhoeddus gyda chymalau budd cymdeithasol ac *Y Tu Hwnt i Frics a Morter* yn eu contractau o naw yn 2010-11 i 12 yn 2011-12.

47 Ar y llaw arall, er bod 201 o bobl a gymerodd ran ym menter Gweithffyrdd wedi cael gwaith yn 2011-12, roedd hyn yn llai na tharged y Cyngor, sef 285, er bod 74 y cant o'r cyfranogwyr a holwyd yn teimlo bod y fenter wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w rhagolygon o gael gwaith. Rhoddwyd cyfleoedd i'r cyfranogwyr wella eu sgiliau cyflogaeth trwy fynd i gyfweliadau am swyddi a chyrsiau a thrwy wneud gwaith gwirfoddol.

48 O gofio lefel sylweddol anweithgarwch economaidd yn Abertawe, er fod y rhaglenni yn darparu cefnogaeth werthfawr i'w cleientiaid, mae'r nifer o bobl yr effeithiodd y ddwy raglen arnynt yn gymharol fach. Mae'r data cenedlaethol canlynol yn dangos darlun cymysg:

- Yn ôl gwybodaeth gan Wasanaeth Gwybodaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol (NOMIS)[7] cododd lefel diweithdra yn Abertawe ychydig, o 9.4 y cant ym mis Mawrth 2011 i 9.6 y cant ym mis Mawrth 2012. Dylid nodi bod lefelau diweithdra yn Abertawe wedi amrywio rhwng 8.9 y cant a 10.1 y cant yn y ddwy flynedd diwethaf. Mae'r ffigur ddiweddaraf ar NOMIS yn dangos bod diweithdra'n 8.9 y cant ym mis Medi 2012, i lawr o 10.1 y cant ym mis Medi 2011 a'r lefel isaf a gofnodwyd yn Abertawe yn y ddwy flynedd diwethaf. Er hynny, mae'r gyfradd diweithdra yn Abertawe yn dal i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 8.4 y cant, a chyfartaledd y Deyrnas Unedig, sef 7.9 y cant.

5 Mae *Gweithffyrdd* yn mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal unigolion rhag dod o hyd i waith. Mae'r prosiect yn rhoi cymorth gyda chwilio am swyddi, CVs, ffurflenni cais, sgiliau cyfweld, technegau ffôn a mynediad i hyfforddiant. Hefyd mae'r bobl sy'n cymryd rhan yn cael eu paru â busnesau lleol, gan eu helpu i gael y profiad hanfodol y mae ei angen i ddod o hyd i gyflogaeth hirdymor. Dan arweiniad Cyngor Castell-nedd Port Talbot ar y cyd gyda Sir Gâr, Sir Penfro a Dinas a Sir Abertawe, mae prosiect *Gweithffyrdd* y De Orllewin yn cael ei gefnogi gan bron £13 miliwn o Gronfa Gymdeithasol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru.

6 Nod menter Dinas a Sir Abertawe, *Y Tu Hwnt i Frics a Morter*, yw gwneud adfywio cymdeithasol a chreu swyddi'n rhan o unrhyw gontract adeiladu mawr.

7 Mae NOMIS yn gronfa ddata ar y we o ystadegau'r farchnad lafur.

- Mae canran y bobl sy’n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith wedi codi ychydig o 3.3 y cant ym mis Mai 2011 i 3.4 y cant ym mis Mai 2012, ond mae’n dal i fod yn is na chyfartaledd Cymru, sef 3.9 y cant, a chyfartaledd y Deyrnas Unedig, sef 3.7 y cant.
- Mae canran y bobl sy’n hawlio budd-daliadau analluogrwydd a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth wedi gostwng o 9.8 y cant ym mis Mai 2011 i 9.6 y cant ym mis Mai 2012 ond mae’n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 8.8 y cant a chyfartaledd y Deyrnas Unedig, sef 6.3 y cant.

49 Fel mesurau llwyddiant, mae Mynegeion Cystadleurwydd Dinasoedd a’r Deyrnas Unedig[8] yn cael eu hystyried yn ffordd dda o farnu pa mor dda mae rhanbarthau yn y Deyrnas Unedig yn perfformio wrth ddenu buddsoddiad sector preifat newydd yn ogystal â chynorthwyo busnesau sy’n bodoli eisoes i ffynnu. Oherwydd bod y mynegai’n cael ei gyhoeddi bob dwy flynedd, nid oes data ar gael i wneud asesiad ar gyfer 2011-12. Mae’r mynegai’n dangos bod yr ardal a gynrychiolir gan Ddinas a Sir Abertawe yn y 38fed safle o 43 o ddinasoedd yn y Deyrnas Unedig yn 2010, sy’n well na’r 40fed safle yr oedd ynddo yn 2008. Roedd rhanbarth Abertawe yn y 310fed safle o’r 379 o ranbarthau ym Mynegai Cystadleurwydd y Deyrnas Unedig, sy’n well na’r 334fed safle yr oedd ynddo yn 2008. Mae yn yr 11eg safle o’r 22 o gynghorau yng Nghymru, sy’n welliant ar 2008 pan oedd yn yr 14eg safle o 22.

## Mae trefniadau’r Cyngor ar gyfer gweinyddu budd-dal tai’n cefnogi gwelliant; dylai’r prosesau presennol sicrhau y caiff taliadau amserol a chywir eu gwneud i’r bobl iawn, a bod y gwasanaeth yn effeithiol ac yn ymatebol

50 Mae amserau prosesu ar gyfer hawliadau newydd am fudd-dal tai a newidiadau i amgylchiadau yn fyrrach na chyfartaledd Cymru, ac mae canran yr hawliadau newydd y penderfynir arnynt cyn pen 14 diwrnod hefyd yn well na’r cyfartaledd cenedlaethol. Mae canran yr hawliadau newydd sydd heb eu penderfynu am fwy na 50 diwrnod yn is na chyfartaledd Cymru. Mae canran fawr o hawliadau’n cael eu prosesu’n gywir gan y gwasanaeth. Mae’r gwasanaeth wedi cynyddu nifer yr ymchwiliadau i dwyll a sancsiynau llwyddiannus a gostyngodd nifer yr atgyfeiriadau twyll ychydig yn 2011-12. Mae nifer y ceisiadau i gael eu hailystyried neu eu diwygio wedi gostwng, ond mae’r amser a gymerir i ymdrin â hwy wedi cynyddu. Daeth nifer fwy o apeliadau i law yn ystod 2011-12 ond ymdrinnir â hwy’n gyflym. Roedd canran y gordaliadau a ganfuwyd ac a adenillwyd yn is nag yn y flwyddyn flaenorol, ac mae’n is na chyfartaledd Cymru.

8 Mae’r mynegeion yn meincnodi cystadleurwydd rhanbarthau ac ardaloedd lleol y DU. Maen nhw’n mesur gallu economi i ddenu a chadw cwmnïoedd gyda chyfrannau marchnad sefydlog neu gynyddol mewn gweithgarwch wrth gynnal safonau byw sefydlog neu gynyddol ar gyfer y rhai sy’n cymryd rhan ynddo.

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth sicrhau bod ei holl dudalennau gwe ac arwyddion yn ddwyieithog ond bu oedi wrth roi'r wedd derfynol ar y Fframwaith Sgiliau Ieithyddol

51 Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Dros amser fe fydd pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru i arolygu a chynghori ar weithrediad cynlluniau iaith. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro; yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen. Mae adroddiad llawn y Comisiynydd ar gael yn: www.comisiynyddygymraeg.org. Mae crynodeb o sylwadau'r Comisiynydd mewn perthynas ag Abertawe fel a ganlyn:

52 Oedwyd y gwaith o baratoi Fframwaith Sgiliau Ieithyddol, a fyddai'n cynnig arweiniad ar gynllunio gweithlu dwyieithog, gan nad oedd y Cyngor wedi medru cynnal awdit o sgiliau presennol ei staff. Disgwylir i'r darn yma o waith gael ei wneud yn fuan iawn, a bydd yn galluogi'r Cyngor i fynd ati i gwblhau a gweithredu Strategaeth Sgiliau Iaith. Mae'r Cyngor wedi diwygio'i drefn cwynion corfforaethol a bydd yn gwella ei ddealltwriaeth o weithrediad ei Gynllun Iaith Gymraeg. Mae gan y Cyngor drefniadau ar gyfer rheoli a gweinyddu'r Cynllun Iaith sydd yn cynnwys gosod canllawiau ysgrifenedig ar y fewnrwyd a sicrhau bod swyddogion priodol ar gael i gyfrannu i'r broses o asesu effaith polisïau newydd ar y Gymraeg. Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio gweithgorau mewnol i brif ffrydio'r Gymraeg.

## Mae dull y Cyngor o hunanwerthuso yn gwella ac mae'n cymryd camau cadarnhaol i roi darlun manwl gwir o berfformiad i ddinasyddion

53 Mewn ymateb i *Fesur Llywodraeth Leol (Cymru)* – Canllawiau Gweithredu 2012 mae'r Cyngor wedi cydnabod ei fod, yn ogystal â mesur gwelliannau ansoddol yn ei berfformiad a gofyn i ddefnyddwyr gwasanaethau pa mor dda mae wedi perfformio, yn ceisio darganfod a yw unrhyw un yn well ei fyd. Er mwyn gwneud hyn, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau fel dull corfforaethol o reoli perfformiad.

54 Wrth baratoi ar gyfer hyn, newidiodd y Cyngor fformat adroddiad perfformiad 2011-12 yn ddirfawr, er mwyn cyflyno'n well wybodaeth am berfformiad Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau, ac mae wedi ceisio, cyn belled ag y bo modd gyda'r wybodaeth sydd ar gael, darganfod a yw pobl yn 'well eu byd'.

55 Ers hynny, mae'r Cyngor wedi dangos ei ymrwymiad i sefydlu'r dull newydd hwn. Mae wedi dechrau ar raglen o weithdai gyda phob maes gwasanaeth sy'n edrych tuag allan er mwyn gwella'r ddealltwriaeth o egwyddorion sylfaenol Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau a cheisio gwahaniaethu rhwng canlyniadau perfformiad a phoblogaeth, yn arbennig y canlyniadau hynny sy'n berthnasol i amcanion gwella'r Cyngor.

56 Erbyn hyn mae'r gyfres o weithdai wedi dod i ben a chaiff y canlyniadau a gesglir eu defnyddio i lywio gwaith adrodd ar berfformiad yn y dyfodol.

57 Hefyd, mae'r Cyngor yn y broses o adolygu ei wefan er mwyn ymchwilio i'r ffordd orau i gyflwyno'r asesiad hwn ar y rhyngrwyd mewn ffordd ryngweithiol a hawdd ei defnyddio, gan ddefnyddio elfennau arloesol fel botymau brys.

58 Ym mis Hydref 2012, mabwysiadodd y Cyngor fframwaith craffu newydd. Yn lle'r hen fyrddau craffu cysylltiedig â gwasanaethau, sefydlodd un Pwyllgor Rhaglen Graffu. Byddwn yn adolygu effeithiolrwydd y trefniant newydd hwn yn ystod y flwyddyn i ddod. Mae gan y pwyllgor hwn rôl drawsbynciol a chydgysylltiol ac mae ganddo lawer o swyddogaethau gan gynnwys:

- rheoli'r rhaglen waith craffu;
- sefydlu paneli anffurfiol a gweithgorau i gyflawni gweithgareddau craffu penodol;
- penodi cynghorwyr i fod yn 'gynullwyr craffu' i gadeirio ac arwain y paneli/gweithgorau hyn;
- dal aelodau'r Cabinet yn gyfrifol mewn lleoliad cyhoeddus ffurfiol;
- gofyn cwestiynau am amrywiaeth fawr o faterion yn ymwneud â pholisïau a gwasanaethau;
- archwilio adroddiadau perfformiad blynyddol;
- ystyried polisïau/cynlluniau/strategaethau drafft a/neu adolygiadau o bwys;
- cyflawni cyfrifoldebau statudol y Cyngor ar gyfer trosolwg a chraffu, gan gynnwys cyflawni'r swyddogaeth craffu trosedd ac anhrefn;

- monitro argymhellion/cynlluniau gweithredu (e.e. gwaith dilynol ar adroddiadau craffu blaenorol, adroddiadau archwilio/arolygu);
- cydgysylltu gwaith craffu cyn penderfyniadau; ac
- ymateb i faterion ac atgyfeiriadau brys oddi wrth y Cyngor.

59 Mae'r holl weithgarwch craffu'n cael ei reoli gan y pwyllgor hwn trwy un cynllun gwaith. Mae gwaith penodol yn cael ei wneud trwy'r pwyllgor a hefyd trwy sefydlu paneli anffurfiol (ar gyfer gweithgareddau manwl) neu weithgorau gyda chynullwyr a benodir gan y pwyllgor. Y bwriad yw y bydd defnyddio paneli'n sicrhau bod gwaith craffu'n hyblyg ac yn ymatebol. Mae dau fath o banel:

- Paneli ymchwilio sy'n cynnal ymchwiliadau manwl, ar wahân, i feysydd sy'n peri pryder penodol a sylweddol, fel grŵp gorchwyl a gorffen. Bydd y rhain yn bynciau sylweddol a cheir adroddiad terfynol ar ddiwedd yr ymchwiliad, y bydd maint y dystiolaeth a gesglir yn ei lywio. Y pwyllgor sy'n penderfynu ar nod pob un o'r ymchwiliadau, ac sy'n gosod terfynau amser eglur i'r panel gynnal a chwblhau'r ymchwiliad.
- Paneli perfformiad sy'n darparu gwaith monitro a herio manwl i feysydd gwasanaeth diffiniedig. Disgwylir i baneli perfformiad gynnal gohebiaeth barhaus gydag aelodau perthnasol o'r cabinet er mwyn rhannu safbwyntiau ac argymhellion, sy'n deillio o weithgareddau monitro, am y gwasanaeth.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur). Fodd bynnag, dylai sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n fwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru

60 Yn ein *Llythyr Asesiad Gwella* at y Cyngor ym mis Rhagfyr 2012, dywedasom fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur wrth gyhoeddi ei *Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2011-12*. Fodd bynnag, dylai gydymffurfio'n fwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru trwy:

- gymharu perfformiad â blynyddoedd blaenorol ac â chyrff cymaradwy eraill;
- gwneud mwy o ddefnydd o wybodaeth ansoddol, gan gynnwys manylion ynghylch a yw gweithgarwch cydweithredu wedi cyflawni'r hyn a fwriadwyd; ac
- esbonio'n benodol farn y Cyngor ar ei lwyddiant i gyflawni pob un o'i amcanion gwella.

## Mae'r Cyngor yn gwella ehangder y wybodaeth a ddefnyddir i werthuso ei berfformiad, a fydd, ar ôl iddo ymsefydlu, yn galluogi'r Cyngor i ddarlunio canlyniadau i ddinasyddion a chymunedau'n well

61 Daeth ein hadolygiad o *Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2011-12* y Cyngor (yr Adolygiad) i'r casgliad ei fod at ei gilydd yn rhoi darlun cytbwys o'i berfformiad a bod strwythur yr Adolygiad yn adlewyrchu dull newydd o adolygu perfformiad a fydd, ar ôl iddo ymsefydlu, yn galluogi'r Cyngor i ddangos canlyniadau i ddinasyddion a chymunedau. Canfuom hefyd fod yr Adolygiad yn rhoi asesiad cyffredinol lefel uchel o 'gynnydd da' ar gyfer yr holl amcanion gwella ond nad yw'n rhoi darlun â chefnogaeth eglur o'i asesiad o'i berfformiad ar gyfer pob un o'i amcanion gwella ar gyfer 2011-12. Mae llawer iawn o wybodaeth i gynorthwyo â gwerthusiad, ond gadawyd i'r darllenydd ffurfio ei farn ei hun ynglŷn ag a yw'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth gyflawni amcanion gwella penodol. Hefyd canmolasom y Cyngor am y ffyrdd arloesol yr oedd wedi hybu'r Adolygiad er mwyn cynyddu'r mynediad i gynulleidfa eang.

62 Canfu ein hadolygiad o sampl o feysydd gwasanaeth rai achosion lle nad yw'r cynnydd a adroddwyd yn rhoi darlun cyflawn a chywir o'r perfformiad. Er enghraifft, o dan yr amcan gwella gwastraff ac ailgylchu, nid yw'r Adolygiad yn nodi'r ffaith y bu anawsterau wrth gael elusennau i gofrestru ar gyfer y cynllun credydau ailddefnyddio/ailgylchu ac felly bod y nifer a gofrestrwyd yn fach.

63 Mae'r Mesur yn annog cynghorau i adrodd ar berfformiad y tu hwnt i'w hamcanion gwella. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar weithgareddau a mesurau i gefnogi ei amcanion gwella, ac nid yw'n ymdrin â meysydd allweddol eraill, megis tai. Dylid cofio bod y Cyngor yn dal i gadw ei stoc tai o 13,500 o dai a fflatiau sy'n eiddo i'r Cyngor ac yn gweithio i fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2022. Felly mae'r perfformiad yn y maes hwn yn debygol o fod o ddiddordeb i ddinasyddion a chymunedau'r Cyngor, yn enwedig ei denantiaid, sy'n grŵp defnyddwyr sylweddol.

64 Mae gan y Cyngor broses drylwyr ar gyfer datblygu ei adolygiad perfformiad blynyddol, gan ddefnyddio gwybodaeth megis adroddiadau i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, y Cabinet, craffu, a chyfarfodydd misol Monitro Perfformiad ac Ariannol drwy gydol y flwyddyn. Mae hefyd yn ofynnol i'r swyddogion sy'n gyfrifol am amcanion gwella gwblhau pro fforma sy'n nodi eu hasesiad o'r perfformiad o'i gymharu â'r amcan ar ddechrau'r flwyddyn galendr ac i ddarparu tystiolaeth fanwl i gefnogi eu barn. Rydym wedi rhoi rhywfaint o adborth i'r Cyngor o'n hadolygiad o sampl o amcanion gwella ynglŷn â sut y gellid gwella'r broses hon.

65 Mae'r Cyngor yn datblygu dull Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau o reoli perfformiad ac wedi strwythuro ei *Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2011-12* i ateb y cwestiynau canlynol mewn perthynas â phob un o'i amcanion gwella:

- 'Beth ydym ni wedi'i wneud?'
- 'Pa mor dda ydym ni'n perfformio?'

- ‘Beth yw effaith hyn?’
- ‘A yw unrhyw un yn well ei fyd?’

66 Ar y cyfan, mae’r naratif o dan y cwestiynau hyn yn adlewyrchu’r perfformiad o’i gymharu â’r dangosyddion neu’n nodi camau gweithredu yn y dyfodol, ond nid yw bob amser yn mynd ymlaen i nodi’r canlyniad gwirioneddol i ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod y Cyngor yn y broses o ddatblygu’r dull hwn o adrodd ac nad yw wedi cipio’r wybodaeth angenrheidiol yn y gorffennol. Mae’r Tîm Rheoli Busnes Corfforaethol wedi bod yn gweithio gyda thimau cyflenwi gwasanaethau i ddatblygu mesurau y bydd timau’n eu defnyddio yn y dyfodol a fydd yn dangos yn well y canlyniadau a welir gan ddefnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill.

67 Daeth *Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol ar gyfer 2011-2012* AGGCC, a adolygodd adroddiad blynyddol Cyfarwyddwr Dros Dro’r Gwasanaethau Cymdeithasol, i’r casgliad bod yr adroddiad blynyddol: ‘yn rhoi disgrifiad cynhwysfawr a chywir o berfformiad y cyngor ac yn adlewyrchu’r dystiolaeth a ddarparwyd i AGGCC yn eglur. Mae’r dystiolaeth a ddarparwyd gan y cyngor i ategu ei werthusiad wedi bod yn eglur.’ Yn ddiweddarach nododd AGGCC: ‘Yn ystod y blynyddoedd diweddar, cydnabuwyd Abertawe am ansawdd a thrylwyredd ei drefniadau craffu ... bydd angen i’r cyngor sicrhau bod y trefniadau’n parhau i fod yn gadarn ac yn effeithiol, yn enwedig wrth i’r gwasanaethau cymdeithasol gael eu cynnwys mewn dull â thema ehangach. Bydd hwn yn faes y bydd AGGCC yn ei fonitro yn ystod y flwyddyn i ddod.’ Nododd AGGCC y risg cysylltiedig canlynol: sicrhau [bod] newidiadau i drefniadau craffu yn galluogi goruchwylio effeithiol o’r gwasanaethau cymdeithasol i gael ei gynnal.

## Mae trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor wedi’i hen sefydlu ond mae angen rhagor o waith i alinio’n well gynlluniau busnes ac amcanion gwella

68 Mae dangosyddion perfformiad y Cyngor yn cael eu monitro ac adroddir arnynt bob chwarter a phob blwyddyn i’r Tîm Rheoli Corfforaethol, y Cabinet a, hyd fis Hydref 2012, byrddau craffu a throsolwg y Cyngor. Byddwn yn parhau i fonitro’r datblygiad yn nhrefniadau rheoli perfformiad y Cyngor yn ystod y flwyddyn i ddod.

69 Mae’r bwletinau perfformiad chwarterol y mae’r Cyngor yn eu defnyddio i fonitro ei berfformiad ar gael i’r cyhoedd trwy’r tudalennau gwe ‘perfformiad a gwella’ ar wefan y Cyngor. Mae ein hadolygiad o sampl o’r bwletinau hyn yn dangos eu bod yn rhoi cryn dipyn o fanylion megis y perfformiad o’i gymharu â’r flwyddyn flaenorol, y perfformiad o’i gymharu â thargedau ac esboniadau ynglŷn â pherfformiad sy’n dirywio. O Chwarter 3 ymlaen, darparodd adroddiadau perfformiad chwarterol wybodaeth gymharol â chynghorau eraill Cymru. Nid yw’r bwletinau hyn yn canolbwyntio’n benodol ar gynnydd gydag amcanion gwella’r Cyngor sydd wedi ei adrodd arno mewn man arall; yn hytrach maent yn rhoi gwybodaeth am berfformiad amrywiaeth o wasanaethau a swyddogaethau’r Cyngor.

70 Yn yr un modd, mae adroddiadau ar berfformiad i'r aelodau'n cyflwyno cynnydd gyda dangosyddion perfformiad yn hytrach nag o'u cymharu â'r camau gweithredu a'r mesurau a nodir yng nghynllun gwella corfforaethol y Cyngor. Nodwyd gennym yn yr *Adroddiad Gwella Blynyddol* a anfonwyd at y Cyngor ym mis Ionawr 2012 nad oedd unrhyw fecanwaith yn bodoli i alluogi'r Cyngor i fonitro cynnydd yn uniongyrchol o'i gymharu â'r cynllun gwella yn gyfan yn ystod y flwyddyn ac mai dim ond ar ddiwedd blwyddyn y gwneir hyn er mwyn darparu gwybodaeth wrth gynhyrchu adolygiad perfformiad blynyddol y Cyngor. Ers mis Ebrill 2012, roedd cynnydd yn erbyn amcanion gwella'r Cyngor yn cael ei fonitro gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Bwrdd Rhaglenni Strategol.

71 Mae dull y Cyngor o fonitro prosiectau corfforaethol a strategol, megis gweddnewid gwasanaethau cymdeithasol i oedolion, wedi'i hen sefydlu. Mae Bwrdd y Rhaglen Strategol yn parhau i fonitro'r prosiectau hyn bob mis ac mae swyddogion yn gyfarwydd iawn â'r dull hwn. Mae'r Cyngor wedi parhau i fireinio ei drefniadau cynllunio busnes gan sicrhau mwy o integreiddio o ran cynllunio'r gweithlu. Bydd y gwaith i feithrin dull Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau ar draws y sefydliad hefyd yn helpu i wella ansawdd y cynlluniau busnes hyn.

72 Canfu ein hadolygiad o sampl o wasanaethau fod yna le i gryfhau'r gwaith o alinio cynlluniau busnes â'r amcanion gwella a nodir yn y cynllun gwella corfforaethol a'r adolygiad perfformiad blynyddol. Yn y gwasanaethau i oedolion, er enghraifft, nid yw'r cysylltiadau hyn wedi cael eu gwneud yn eglur ac mae'r gwasanaeth wedi cydnabod bod angen alinio ei gynllun busnes â'r cynllun corfforaethol yn well. Nid yw pob gwasanaeth wedi mabwysiadu'r ymagwedd gorfforaethol at gynllunio busnes. Datblygodd y gwasanaethau i oedolion, er enghraifft, gynllun cyflawni strategol, ond cynhyrchodd yr adran rheoli gwastraff 'ddadansoddiad o weithgareddau' a ddefnyddir fel y prif offeryn i fonitro cynnydd o'i gymharu â chamau gweithredu a mesurau allweddol. Deallwn fod yr uwch reolwyr yn cefnogi dull cymysg ond mae'n bwysig bod cysylltiad clir rhwng y cynlluniau hyn a blaenoriaethau ac amcanion gwella'r Cyngor lle bo'n briodol.

## Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar waith i gasglu, cofnodi a monitro gwybodaeth am berfformiad

73 Mae gan y Cyngor systemau sydd wedi'u hen sefydlu ar gyfer adrodd ar ei berfformiad ac rydym wedi archwilio sampl o'r mesurau mae'r Cyngor yn eu defnyddio er mwyn asesu pa mor ddibynadwy yw'r systemau hyn. Roedd y mesurau a ddewisasom i'w harchwilio'n gymysgedd o ddangosyddion strategol cenedlaethol, mesurau atebolrwydd cyhoeddus, setiau data gwella gwasanaethau a mesurau lleol a ddatblygwyd gan y Cyngor. Mae'r holl fesurau a archwiliwyd yn rhai mae'r Cyngor yn eu defnyddio i farnu pa mor dda mae'n cyflawni ei amcanion gwella ac a yw'n gwneud gwahaniaeth i'w ddinasyddion.

74 Canfu ein hadolygiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer cynhyrchu dangosyddion perfformiad fod y systemau'n ddibynadwy. Roedd yr holl agweddau sy'n hanfodol i gasglu, defnyddio ac adrodd ar ddangosyddion yn bodoli. Roedd y prif fwlch yn y wybodaeth am berfformiad yn ymwneud â mesur 'canlyniadau'.

75 Canfuom fod gan y Cyngor, at ei gilydd, systemau effeithiol ar waith i reoli gwybodaeth am berfformiad. Archwiliasom 17 o fesurau; nid oedd unrhyw rai'n amodol a chafodd tri eu diwygio.

# Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer cynllunio a chefnogi gwelliant yn gadarn at ei gilydd ac mae'n rheoli cyfnod o newidiadau i drefniadau uwch-reoli a chraffu

## Mae'r Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon

76 Cydymffurfiodd y Cyngor â'i oblygiadau statudol dwy gyhoeddi ei *Gynllun Gwella Corfforaethol 2012-13* a nododd ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13 ym mis Mehefin 2012.

77 Arweiniodd etholiadau mis Mai at newid yn arweinyddiaeth wleidyddol y Cyngor. Mae'r weinyddiaeth newydd wedi parhau â'r un amcanion ar gyfer 2012-13. Mae yn y broses o alinio'r ymrwymiadau yn ei maniffesto etholiadol gyda'r cynlluniau ariannol a'r cynlluniau o ran gwasanaethau er mwyn cefnogi cyflawni ei blaenoriaethau a'i hamcanion ar gyfer y cyfnod 2013 i 2017.

78 Mae seiliau rhesymegol y Cyngor dros ei amcanion gwella wedi eu nodi yng *Nghynllun Gwella Corfforaethol 2011-12* y Cyngor. Wrth osod ei amcanion gwella, cymerodd y Cyngor i ystyriaeth flaenoriaethau cenedlaethol, y cynllun cymunedol, y gydweledigaeth ar gyfer Abertawe, canfyddiadau o arolygiadau ac, yn bwysig iawn, canfyddiadau o ymgynghoriad â phanel dinasyddion y Cyngor, Lleisiau Abertawe, yr ymgynghorwyd ag ef yn benodol ar yr amcanion gwella ar gyfer 2011-12.

79 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru'n nodi y dylai amcanion gwella fod yn ddilys, yn glir, yn gadarn, yn rhai y gellir eu cyflawni ac yn brofadwy. Er bod cynllun y Cyngor a'i amcanion gwella'n ymdrin â'r agweddau hyn, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo ddatblygu dull sydd wedi'i seilio'n fwy ar ganlyniadau er mwyn mesur ei berfformiad, gan mai dim ond dangosyddion perfformiad mae'r Cyngor wedi'u cynnwys yn ei adrannau yn ei *Gynllun Gwella Corfforaethol 2012-13* i ddangos sut y bydd yn canfod 'pa mor dda ydym yn perfformio?' neu 'a yw unrhyw un yn well ei fyd?'. Nid yw, er enghraifft, wedi cynnwys ystod ehangach o ffynonellau gwybodaeth, megis mwy o wybodaeth o arolygon a grwpiau ffocws, fydd hefyd o bosibl yn darparu gwybodaeth fwy ansoddol i helpu'r Cyngor i ganfod effaith ei gamau gweithredu ar ei ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau.

80 Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn nodi gofynion penodol i awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'n ofynnol iddynt ddatblygu a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb a chynllun cydraddoldeb strategol erbyn 2 Ebrill 2012. Mae cryn dipyn o aliniad rhwng y gofyniad i gynhyrchu amcanion cydraddoldeb a'r elfen 'tegwch' y mae'n rhaid i awdurdodau roi ystyriaeth iddi wrth osod amcanion gwella o dan y Mesur. Canfu ein hadolygiad o amcanion gwella'r Cyngor nad yw'r sail dystiolaeth a nodir yn y *Cynllun Gwella Corfforaethol 2012-13* yn cynnwys gwybodaeth am gydraddoldeb yn benodol, na sut y bydd yr effaith ar yr agenda cydraddoldeb yn cael ei mesur. Fodd bynnag, tynnir sylw yn benodol at gysylltiadau â'r amcanion cydraddoldeb perthnasol a nodir yng Nghynllun Cydraddoldeb y Cyngor ar gyfer pob amcan gwella.

81 Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu ei gynllun gwella corfforaethol ar gyfer 2013-2017. Ar hyn o bryd mae gan y cynllun drafft wyth amcan gwella. Yn ddiweddar mae'r Cyngor wedi ymgynghori â'r cyhoedd ar ei amcanion gwella fel sy'n ofynnol gan y Mesur.

## Mae'r Cyngor yn rheoli newidiadau pellach i'w strwythurau uwch-reoli a'i drefniadau craffu

82 Mae'r Cyngor yn y broses o wneud newidiadau i'w strwythur uwch reoli, a bydd nifer y swyddi haen gyntaf ac ail haen yn gostwng o 24 i 22. Yn 2008, roedd 32 o swyddi uwch reoli. Nod y gwaith ailstrwythuro yw canolbwyntio'n fwy ar flaenoriaethau a themâu allweddol y Cyngor yn ogystal â mynd i'r afael â'r ffaith fod y Cyfarwyddwr Addysg a Chyfarwyddwr dros dro'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gadael. Mae prosesau recriwtio a phenodi ar waith ar hyn o bryd. Mae'r portffolios newydd yn llai traddodiadol ac yn canolbwyntio ar themâu pobl, lleoedd a chymunedau cryfach a diogel.

83 Ar y cyd â'r newidiadau hyn i'r drefn reoli, mae'r Cyngor hefyd wedi gwneud newidiadau dirfawr i'w drefniadau craffu, gan leihau nifer ei fyrddau craffu a throsolwg o bedwar i un. Bydd yr un Pwyllgor Rhaglen Graffu hwn yn rheoli'r holl waith craffu er mwyn sicrhau bod y gwaith yn drawsbynciol ac nad yw'n gyfyngedig i seilos adrannol. Mae cylch gwaith a chyfrifoldebau'r pwyllgor craffu newydd, felly, yn sylweddol. Mae'n bosibl y bydd paneli ymchwilio anffurfiol i adolygu meysydd o ddiddordeb penodol yn cael eu sefydlu o hyd, a byddant yn cael eu penodi a'u monitro gan y pwyllgor craffu newydd. Mae enghreifftiau o baneli ymchwilio blaenorol yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal, a chyrhaeddiad a lles. Dyma'r ail newid i drefniadau craffu'r Cyngor mewn llai na 12 mis. Yn ddiweddar mae'r Cyngor wedi cymryd rhan yn y rhaglen adolygu arsylwi gan gymheiriaid ym maes craffu a hwyluswyd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Byddwn yn adrodd yn llawnach ar y newidiadau hyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

## Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i fynd i'r afael â phroblemau gyda'r ffordd yr oedd ei wasanaeth cynllunio'n cael ei lywodraethu a arweiniodd at argymhelliad statudol yn 2011

84 Yn 2011, cyhoeddwyd gennym argymhelliad statudol ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer Pwyllgorau Cynllunio a roddwyd ar waith gan y weinyddiaeth flaenorol. Daethom i'r casgliad nad oedd y trefniadau hyn yn rhan o ddull cyson a chydlynol o wella gwasanaethau, yn cynnig gwerth da am arian, yn cyfrannu at ffyrdd mwy effeithlon o weithio nac yn ffordd dda o lywodraethu. Y canfyddiadau allweddol a arweiniodd at yr argymhelliad statudol oedd:

- Bod yr aelodau, yn 2010, wedi cynyddu nifer y pwyllgorau o ddau i bedwar yn groes i gyngor Swyddfa Archwilio Cymru, ymgynghorwyr allanol a chanfyddiadau cynharach gan weithgor mewnol. Ni chyflwynwyd sail resymegol dros y penderfyniad, a wnaethpwyd heb gyfeirio at y buddion a ragwelwyd, y costau posibl, y risgiau nac ystyriaethau o ran uniondeb.

- Nid oedd y cynnydd yn nifer y pwyllgorau cynllunio'n cynnig gwerth da am arian nac yn cyfrannu at ffyrdd mwy effeithlon o weithio.
- Nid oedd y trefniadau newydd o ran pwyllgorau'n cynnig ffordd dda o lywodraethu. Yn benodol, roedd ffocws y pwyllgor ardal ar faterion wardiau lleol a datblygiadau ar raddfa fach yn gwbl groes i nod datganedig y Cyngor i ddatblygu rôl fwy strategol i'r gwasanaeth cynllunio wrth gefnogi ei amcanion adfywio strategol ar gyfer y ddinas.

85 Yn ystod 2012, cynaliasom adolygiad arall i ganfod os oedd y gwendidau a nodwyd o'r blaen yn cael eu hymdrin â hwy, a daethpwyd i'r casgliad fod y Cyngor wedi cymryd camau rhesymol i ddatrys y materion a oedd wedi arwain at yr argymhellion statudol.

86 Yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2012, gorchmynnodd y Cyngor y Prif Weithredwr i ystyried y beirniadaethau a wnaethpwyd o'r blaen a gwneud argymhellion i'r Cyngor cyn pen chwe mis. Mewn ymateb, sefydlodd y Prif Weithredwr fwrdd gwella, oedd yn cynnwys y Prif Weithredwr ac uwch swyddogion perthnasol. Ar lefel yr aelodau, ffurfiwyd Grŵp Arweiniad Gwasanaethau Cynllunio, sy'n cael ei gadeirio gan yr Arweinydd ac sy'n cynnwys y Dirprwy Arweinydd, yr aelod Cabinet dros Leoedd a Chadeirydd y Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu i roi arweiniad gwleidyddol clir.

87 Wedi ystyried y dewisiadau a gyflwynwyd mewn adroddiad gan y Prif Weithredwr, ar 22 Tachwedd 2012 penderfynodd y Cyngor gadw strwythur o Bwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu a dau bwyllgor rheoli datblygu ardal. Mae aelodau'n eistedd ar y prif bwyllgor ac ar bwyllgor yr ardal y mae eu ward ynddi. Mae penderfyniad y Cyngor yn cynnwys darpariaeth ar gyfer adolygu perfformiad ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, ac i adolygiad pellach o'r strwythur gael ei wneud yng ngoleuni canllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol pan fydd y canllawiau hynny ar gael.

88 Mae'r tri phwyllgor yn cael eu cadeirio gan Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu sydd, ymysg ei gyfrifoldebau eraill fel Cadeirydd, wedi cael ei orchymyn i sicrhau bod yr aelodau'n cyflawni eu rôl led-farnwrol, wrth wneud penderfyniadau yn y pwyllgor. Mae'r Cyngor wedi diwygio ei Gyfansoddiad i roi pwerau i'r Cadeirydd i adolygu a diddymu galwadau i bwyllgorau gan aelodau wardiau, gyda darpariaeth i banel feirniadu yn achos dadleuon. Ers yr etholiad ym mis Mai 2012, mae'r holl aelodau wedi cael hyfforddiant sylfaenol ac mae hwn wedi cael ei ategu gan friffiad manylach ar y gyfraith gynllunio sy'n ymwneud â cheisiadau penodol (yn fwyaf diweddar ynghylch cais am fferm wynt) cyn gwneud penderfyniadau.

89 Canfuom fod y Cyngor wedi gwneud gwelliannau i'r ffordd y gellir gwerthuso perfformiad y gwasanaeth cynllunio ac yn cyflwyno dull Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau o reoli perfformiad. Mae'r wybodaeth am berfformiad sydd ar gael erbyn hyn yn cynnwys data am gyflenwi gwasanaethau yn ogystal â gwybodaeth

gyffredinol am gyfran y ceisiadau sy'n cael eu hystyried gan yr aelodau a'r rheiny lle nad yw'r aelodau'n derbyn argymhellion swyddogion. O ganlyniad i'r ffocws ar y gwasanaeth penodol hwn, mae gwersi'n cael eu dysgu ac mae'r dull Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau bellach yn cael ei fabwysiadu fel yr offeryn corfforaethol ar gyfer rheoli perfformiad.

90 Mae'r Cyngor hefyd wedi cydnabod y potensial i wella dyluniad y siambr a ddefnyddir i gynnal cyfarfodydd cynllunio a chyfarfodydd eraill, ac mae'n ystyried ffyrdd y gellir gwneud y gweithgareddau'n gliriach i'r rheiny sy'n gwylio yn oriel y cyhoedd.

## Mae'r Cyngor wedi datblygu strategaeth Adnoddau Dynol a gweithlu ond araf fu'r cynnydd wrth fynd i'r afael â'n hargymhellion yn dilyn ein hadolygiad o Adnoddau Dynol ddwy flynedd yn ôl gan fod angen o hyd i'r Cyngor ganolbwyntio ei adnoddau ar weithredu strwythur cyflogau a graddau newydd

91 Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd wrth fynd i'r afael â'n hargymhellion yn dilyn ein hadolygiad o adnoddau dynol yn 2010 a'n gwaith dilynol ym mis Mai 2011. Fodd bynnag, araf fu'r cynnydd gan y bu angen i'r Cyngor barhau i ganolbwyntio ei adnoddau ar weithredu strwythur cyflogau a graddau newydd.

92 Er hynny, mae'n gadarnhaol nodi bod y Cyngor bellach wedi datblygu strategaeth adnoddau dynol a gweithlu sydd i fod i gael ei chymeradwyo gan y Cabinet ar ddiwedd mis Mawrth 2013. Cafodd y strategaeth ei datblygu yn dilyn gweithdai gyda rhanddeiliaid allweddol o bob rhan o'r Cyngor. Canfu ein hadolygiad cychwynnol o'r strategaeth ddrafft hon ei bod yn gadarn ac wedi'i halinio'n dda â'r cynllun ac amcanion corfforaethol. Mae cynllun gweithredu hefyd wedi cael ei baratoi, a fydd yn helpu i flaenoriaethu'r camau gweithredu a geir yn y strategaeth. Bwrdd Rhaglen y Gweithlu ac Effeithlonrwydd y Cyngor fydd y mecanwaith allweddol i fonitro'r ffordd y caiff y strategaeth ei gweithredu.

93 Mae swydd Pennaeth Adnoddau Dynol wedi cael ei chynnwys yn y strwythur rheoli newydd sydd wedi'i fabwysiadu gan y Cyngor. Bydd cyfrifoldebau deiliad y swydd hon yn cynnwys datblygu galwedigaethol a chynllunio'r gweithlu. Bydd deiliad y swydd yn adrodd i ddeiliad swydd newydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. Bydd hyn yn dod i rym o 1 Ebrill 2013 ymlaen.

94 Nid yw'r Cyngor wedi datblygu cyfres gynhwysfawr o ddangosyddion i fonitro effeithiolrwydd y swyddogaeth adnoddau dynol eto. Fodd bynnag, mae'n ymwneud â'r Rhwydwaith Penaethiaid Adnoddau Dynol, sydd yn y broses o ddatblygu set ddata genedlaethol, y bydd y Cyngor yn ceisio ei defnyddio ar ôl iddi gael ei chytuno.

95 Erbyn hyn mae cynlluniau busnes pob gwasanaeth yn cynnwys adran sy'n rhoi trosolwg o ddata am y gweithlu. Mae'r templed ar gyfer y wybodaeth hon wedi cael ei wella eleni i hwyluso mwy o gysondeb ar draws y cynlluniau busnes. Bydd y wybodaeth hon am y gweithlu'n cael ei hadolygu gan wasanaeth adnoddau dynol

y Cyngor a'i defnyddio i lywio ei gynllun gweithlu corfforaethol. O gofio bod gweithlu'r Cyngor yn heneiddio, mae'n cydnabod bod y wybodaeth hon yn bwysig i lywio ei gynllunio ar gyfer olyniaeth. Mae'r gwasanaeth adnoddau dynol yn darparu diweddariad ar gynllun gweithlu'r Cyngor ac yn tynnu sylw at y risgiau allweddol ddwywaith y flwyddyn i Fwrdd Prosiect y Gweithlu ac Effeithlonrwydd, Bwrdd y Rhaglen Strategol a'r Tîm Rheoli Corfforaethol.

96 Nododd ein hadolygiad dilynol fod capasiti datblygu sefydliadol y Cyngor yn gymharol annatblygedig o hyd. Bellach mae arfarniad o'r dewisiadau a dogfen cychwyn prosiect yn cael eu datblygu i nodi sut y gellir mynd i'r afael â hyn gan fod arbenigedd y Cyngor wedi'i wasgaru ar draws y sefydliad o hyd.

## Mae'r Cyngor yn parhau i reoli ei heriau ariannol yn effeithiol. Fodd bynnag, mae'r cynghorwyr yn wynebu rhai penderfyniadau anodd er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch cyllido a ragfynegir dros y pedair blynedd nesaf

97 Rydym wedi dod i'r casgliad o'r blaen bod gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i sefyllfa ariannol, ac y bydd, gydag arweinyddiaeth glir barhaus, yn parhau mewn sefyllfa dda i ymdrin â'i heriau ariannol. Mae hyn yn wir o hyd, ond mae'r heriau ariannol hynny'n sylweddol.

98 Ers nifer o flynyddoedd, mae cyllideb refeniw, cyllideb cyfalaf a chynllun ariannol tymor canolig wedi cael eu cynhyrchu bob blwyddyn gan y Cyngor fel rhan o gyfres sefydledig o bapurau cyllidebol a gymeradwyir gan yr aelodau bob gwanwyn ac a ddefnyddir ac y rhoddir adroddiadau arnynt drwy gydol y flwyddyn. Tynnir sylw at feysydd lle mae risg, megis pwysau ar wasanaethau i blant a theuluoedd a gweithredu cynllun cyflogau a graddau cydymffurfiol i'r staff, yn y papurau cyllidebol ac mae gan y Cyngor gronfa wrth gefn i'w alluogi i reoli effaith y fath risgiau ac ansicrwydd.

99 Mae'r Cyngor yn rhagweld gorwario £5 miliwn ar gyllidebau gwasanaethau yn 2012-13, yn bennaf oherwydd y pwysau cyllidebol sy'n parhau ar y gwasanaethau cymdeithasol oherwydd cynnydd mwy yn nifer y lleoliadau â chymorth i oedolion a'r plant sy'n derbyn gofal nag a ragdybiwyd ar gyfer y flwyddyn. Mae'r Cyngor yn gallu ariannu'r gorwariant hwn yn 2012-13 trwy

ddefnyddio ei gronfa wrth gefn o £8 miliwn ac mae wedi cynyddu ei gyllidebau yn y meysydd hyn ar gyfer 2013-14 er mwyn gallu bodloni'r galw realistig mae'n ei ragweld yn 2013-14. Yn y tymor canolig, mae rhagdybiaeth wedi cael ei gwneud, a'i adlewyrchu yn y cynllun ariannol tymor canolig, y bydd nifer y plant sy'n derbyn gofal yn gostwng o oddeutu 580 ym mis Mawrth 2013 i 420 ym mis Mawrth 2017, y dywedir ei bod yn sefyllfa debycach i gyfartaleddau'r Deyrnas Unedig. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod risg ariannol oni chyflawnir hyn.

100 Cymeradwyodd y Cyngor y gyllideb refeniw ar gyfer 2013-14 ym mis Chwefror 2013. Mae'r adroddiad yn rhagweld diffyg o £7.7 miliwn ar gyfer y flwyddyn, a bwriedir ymdrin â hyn trwy:

- arbedion a chynnydd yn yr incwm gwerth cyfanswm o £2.5 miliwn;
- codi'r dreth gyngor 3.8 y cant, sy'n gyfwerth â £3.8 miliwn; a
- defnydd untro o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol o £2.2 miliwn, sy'n gwneud defnydd rhannol o welliant gwerth £4.6 miliwn o ran yr alldro yn 2011-12.

101 Mae cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor ar gyfer 2014-15 i 2016-17 yn nodi heriau ariannol sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf oherwydd y gostyngiadau a ragwelir yn y cyllid oddi wrth y llywodraeth ar gyfer gwariant refeniw a chyfalaf a mwy o alw ar wasanaethau. Rhagwelir y bydd diffyg cymharol fach o £5 miliwn yn 2014-15, ond mae hyn yn newid yn gyflym i ddiffygion rhagweledig o £22 miliwn yn 2015-16 a £35 miliwn yn 2016-17. Mae'r Cyngor wedi nodi ei ddull o fynd i'r afael â'r diffyg o'r blaen, sef cynnal adolygiad sylfaenol o'r gyllideb yn syth ar ôl cytuno ar gyllideb 2013-14. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys:

- adolygu'r codiadau gwariant rhagweledig amgaeedig ac ystyried y dewisiadau i leddfu'r codiadau os oes modd;
- cynnal adolygiad sylfaenol o'r cyllidebau presennol ac yn benodol, ailflaenoriaethu'r adnoddau sydd ar gael;
- rhaglen i sicrhau gwell effeithlonrwydd busnes a gweddnewid; ac
- ystyried y cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill lle bo'n fuddiol gwneud hynny.

102 Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd yr adolygiad yn arwain yn anochel at ailflaenoriaethu cyllidebau'r Cyngor, gostyngiadau mewn gwariant ac, efallai, rhoi'r gorau i ddarparu rhai gwasanaethau.

103 Mae'r Cyngor wedi dangos, trwy weithredu cynlluniau ariannol tymor canolig a chyllidebau blynyddol dilynol, y gall wneud dewisiadau clir mewn modd amserol er mwyn cynnal ei iechyd ariannol. Bydd angen parhau â'r ymagwedd hon wrth i'r Cyngor gynllunio sut i gyflawni ei flaenoriaethau a'i amcanion dros y tymor canolig.

104 Yn ddiweddar rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei farn ar gyfrifon y Cyngor ac ar sail y rhain barn yr Archwilydd Penodedig yw bod y broses o baratoi datganiadau ariannol yn foddhaol yn gyffredinol. Mae Atodiad 3 yn rhoi mwy o fanylion.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr asesiad gwella ei lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad yr awdurdod o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Mae'r *Adroddiad Gwella Blynyddol* hwn yn crynhoi adroddiadau archwilio ac asesu gan gynnwys unrhyw arolygiadau arbennig (o dan adran 24).

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Ddinas a Sir Abertawe

## Y Cyngor

Mae'r Cyngor yn gwario tua £535.1 miliwn y flwyddyn (2012-13). Mae hyn yn cyfateb i tua £2,242 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, gwariodd y Cyngor £63.1 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Yn 2011-12, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D ar gyfer y Cyngor oedd £1,169.22 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 0.72 y cant i £1,170.06 y flwyddyn ar gyfer 2012-13. Mae 76.7 y cant o dai'r Cyngor yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 72 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau. Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 49 aelodau o'r blaid Lafur
- 12 aelod o blaid y Democratiaid Rhyddfrydol
- 7 aelod Annibynnol
- 4 aelod o'r blaid Geidwadol

Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Corfforaethol (Adnoddau) y Cyngor yw Jack Straw. Mae'n cael ei gynorthwyo gan:

- Addysg: Ian James (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro (Addysg))
- Amgylchedd: Reena Owen
- Adfywio a Thai: Phil Roberts
- Gwasanaethau Cymdeithasol: Phil Hodgson

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cynulliad dros Abertawe yw:

- Edwina Hart, Gŵyr, y Blaid Lafur
- Mike Hedges, Dwyrain Abertawe, y Blaid Lafur
- Julie James, Gorllewin Abertawe, y Blaid Lafur
- Suzy Davies, Gorllewin De Cymru, y Blaid Geidwadol
- Byron Davies, Gorllewin De Cymru, y Blaid Geidwadol
- Peter Black, Gorllewin De Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- Bethan Jenkins, Gorllewin De Cymru, Plaid Cymru

Yr Aelodau Seneddol dros Abertawe yw:

- Martin Caton, Gŵyr, y Blaid Lafur
- Sian James, Dwyrain Abertawe, y Blaid Lafur
- Geraint Davies, Gorllewin Abertawe, y Blaid Lafur

Am ragor o wybodaeth gweler gwefan y Cyngor ei hun ar www.abertawe.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor:
Cyngor Dinas a Sir Abertawe, Y Ganolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, Abertawe, SA1 3SN.
Ffôn: 01792 636000.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig

Y Cynghorydd David Phillips
Arweinydd
Dinas a Sir Abertawe
Neuadd y Sir
Abertawe
SA1 3SA

Annwyl Gynghorydd Phillips

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau o ran adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

### At ei gilydd, mae Dinas a Sir Abertawe wedi cyflawni ei gyfrifoldebau o ran adrodd ariannol a defnyddio adnoddau, ond nid wyf eto wedi gallu darparu barn archwilio ar ddatganiadau cyfrifyddu 2011/12 gan fod y Cyngor yn ystyried diwygiadau posibl i'r Datganiad o Gyfrifon a gyflwynwyd i gael ei archwilio

Cyfrifoldeb Dinas a Sir Abertawe (y Cyngor) yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol

Nid wyf wedi cyhoeddi barn archwilio ar ddatganiadau cyfrifyddu 2011/12 eto. Mae hyn oherwydd bod y driniaeth gyfrifyddu a datgeliad mewn perthynas â rhai trefniadau mewnol o ran bancio a rheoli arian parod rhwng y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn yn destun trafodaethau sy'n parhau rhwng y Cyngor a'r archwilydd.

Ar 18 Medi 2012, adroddwyd ar y materion allweddol yn deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon ar yr adeg honno i aelodau'r Cabinet yn f'adroddiad Archwilio ar y Datganiadau Ariannol. Nodwyd nifer o faterion, gan gynnwys:

- Y gwaith oedd wedi'i wneud o ran risgiau twyll ac achos penodol o ddiystyru rheolaethau gan reolwyr.
- Ansicrwydd ynghylch natur a chyfreithlondeb trosglwyddiad mewnol o £20 miliwn mewn arian parod o gyfrif banc y Gronfa Bensiwn i gyfrif banc yr Awdurdod ym mis Mawrth 2012.
- Ystyried effaith barn yr archwilydd ar ddatganiadau ariannol y cwmni gwastraff ar fy marn i ar gyfrifon y grŵp.
- Codwyd argymhellion ynghylch agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol y Cyngor. Roedd hyn yn cynnwys addasiadau archwilio a newidiadau i'r naratif a gafwyd yn y cyfrifon drafft.
- Hefyd canfuwyd gwendidau yn y rheolaethau mewnol. Mae adroddiad ar reolaethau wedi cael ei ddarparu i swyddogion ac mae'r Cyngor, mewn ymateb, yn rhoi cynllun gweithredu ar waith, y bwriedir iddo gael ei fonitro gan y Pwyllgor Archwilio.
- Ni ellir rhoi'r wedd derfynol ar y ffurflen Cyfrifon Llywodraeth Gyfan, sy'n darparu gwybodaeth ariannol a geir o Ddatganiad o Gyfrifon y Cyngor i gael ei defnyddio gan Drysorlys Ei Mawrhydi, hyd nes y rhoddir y wedd derfynol ar Ddatganiad o Gyfrifon y Cyngor.

Byddaf yn rhoi adroddiad i'r Cabinet eto unwaith y bydd y Datganiad o Gyfrifon wedi cael ei ailgyflwyno i gael ei archwilio ac y bydd fy ngwaith yn agos at gael ei orffen. Bydd hyn cyn y gofynnir i'r Cyngor ailgymeradwyo'r cyfrifon.

Mae f’ystyriaeth o drefniadau’r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi cael ei seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac yn dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o’r Asesiad Gwella o dan y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. At ei gilydd, ac eithrio rhai agweddau ar drefniadau mewnol o ran bancio a rheoli arian parod rhwng y Cyngor a’r Gronfa Bensiwn, rwy’n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at feysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi cael ei ddangos eto neu lle gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Nid wyf wedi gallu ardystio bod yr archwiliadau ar gyfer 2011/12 na 2010/11 wedi’u cwblhau oherwydd, fel yr esbonnir uchod, fod y driniaeth gyfrifyddu a datgeliad mewn perthynas â rhai trefniadau mewnol o ran bancio a rheoli arian parod rhwng y Cyngor a’r Gronfa Bensiwn yn cael eu datrys ar hyn o bryd.

Bydd y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2011/2012 yn uwch na’r hyn a nodir yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol oherwydd yr amser ychwanegol a dreuliwyd wrth archwilio’r Datganiad o Gyfrifon, yn bennaf mewn perthynas â’r mater y tynnir sylw ato uchod. Byddwn yn trefnu’r ffi derfynol gyda swyddogion unwaith y bydd y materion cyfrifyddu sydd ar ôl wedi cael eu datrys.

Yn gywir

**Lynn Pamment (PricewaterhouseCoopers LLP)**
**Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig**

29 Tachwedd 2012

copïau:
Jack Straw, Prif Weithredwr
Mike Trubey, Pennaeth Cyllid (Swyddog a151)

Mae gan etholwyr lleol ac eraill yr hawl i edrych ar gyfrifon y Cyngor. Pan fydd y Cyngor wedi cwblhau ei gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, fel rheol tua mis Mehefin neu fis Gorffennaf, mae’n rhaid iddo hysbysebu eu bod ar gael i bobl edrych arnynt. Gallwch gael copïau o’r cyfrifon gan y Cyngor; gallwch hefyd weld pob llyfr, gweithred, contract, bil, taleb a derbynneb sy’n ymwneud â hwy am 20 diwrnod gwaith ar ôl iddynt gael eu darparu. Gallwch ofyn cwestiynau i’r archwilydd am y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn y mae’n ei harchwilio. Er enghraifft, gallwch roi gwybod i’r archwilydd os ydych o’r farn bod rhywbeth o’i le ar y cyfrifon neu am wastraff neu aneffeithlonrwydd o ran y ffordd y mae’r Cyngor yn cynnal ei wasanaethau. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar daflen Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyfrifon y Cyngor: eich hawliau*, ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk neu ysgrifennwch atom yn y cyfeiriad ar gefn yr adroddiad hwn.

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Dinas a Sir Abertawe

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' neu 'flaenoriaethau' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2011-13 yn ei ddogfen *Gwella'r hyn sy'n bwysig*, *Cynllun Gwella Corfforaethol 2012-13* a'i *Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2011-12* y gellir eu gweld ar wefan y Cyngor ar www.abertawe.gov.uk. Fe'u gwelir yn y golofn chwith. Y 'blaenoriaethau gwella' ar gyfer 2013-2017, yn y golofn dde, yw camau gweithredu allweddol arfaethedig y Cyngor.

| Amcanion gwella allweddol 2011-12 | Blaenoriaethau gwella allweddol 2011-2017 |
|---|---|
| **Amcan Gwella 1: Sicrhau bod oedolion iau, pobl hŷn a gofalwyr yn cael mwy o ddewis a rheolaeth dros y ffordd y maent yn cael eu cefnogi drwy drawsnewid y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion.** | Cleifion mewnol mewn ysbytai yn profi llai o oedi wrth adael yr ysbyty am fath arall o ofal cymdeithasol.<br>Mwy o bobl yn cael cynlluniau gofal wedi'u cwblhau a'u hadolygu'n brydlon i sicrhau eu bod yn diwallu'r anghenion a nodwyd.<br>Pobl hŷn yn cael help i fyw gartref ac yn y gymuned yn hytrach nag mewn lleoliadau gofal. |
| **Amcan Gwella 2: Sicrhau bod plant diamddiffyn yn cael eu diogelu a'u cefnogi drwy gynnal a pharhau â gwelliannau i wasanaethau plant a theuluoedd.** | Y plant mwyaf diamddiffyn yn cael eu nodi a'u hasesu'n brydlon ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.<br>Trefniadau ar waith i helpu plant sy'n derbyn gofal i gael sefydlogrwydd a pharhad cyn gynted â phosib. |
| **Amcan Gwella 3: Gwella deilliannau dysgu a helpu disgyblion i gyflawni eu potensial.** | Mae presenoldeb plant a phobl ifanc yn yr ysgol wedi gwella.<br>Mae cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc wedi gwella.<br>Mae llai o blant a phobl ifanc yn gadael ysgol heb unrhyw gymwysterau.<br>Mae llai o bobl ifanc heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant yn 16 oed. |
| **Amcan Gwella 4: Lleihau gwastraff a chynyddu compostio ac ailgylchu drwy hyrwyddo a hwyluso cyflwyno gwasanaethau rheoli gwastraff ac ailgylchu.** | Anfon llai o wastraff i safleoedd tirlenwi.<br>Mwy o wastraff yn cael ei ailgylchu, ei gompostio neu ei ailddefnyddio.<br>Llai o dipio anghyfreithlon. |

| Amcanion gwella allweddol 2011-2012 | Blaenoriaethau gwella allweddol 2011-2017 |
|---|---|
| **Amcan Gwella 5: Gwella cyflogadwyedd pobl drwy gynyddu effaith rhaglen adfywio'r Cyngor i gynnig a hwyluso hyfforddiant a lleoliadau gwaith.** | Mwy o gymalau budd cymdeithasol i'w cynnwys mewn contractau adfywio drwy'r cynllun *Tu Hwnt i Frics a Morter*.<br>Mwy o bobl yn mynd i faes cyflogaeth o ganlyniad i gymryd rhan yn y cynllun *Gweithffyrdd*. |

## Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad

Mae hunanasesiad y Cyngor o berfformiad yn ystod 2011-12 ar gael yn yr un ddogfen eto ar wefan y Cyngor ar http://www.swansea.gov.uk/index.cfm?articleid=50881.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk